WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau – **Cyngor Sir Ceredigion**


Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 283A2017

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Andy Bruce, Jeremy Evans a Non Jenkins o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu clir ar gyfer gwneud penderfyniadau ar newidiadau i wasanaethau ond, yn aml, nid yw cynigion yn cael eu datblygu ar y cyflymder sydd ei angen i gyflawni amserlenni arfaethedig.


## Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

## Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu clir ar gyfer gwneud penderfyniadau ar newidiadau i wasanaethau ond, yn aml, nid yw cynigion yn cael eu datblygu ar y cyflymder sydd ei angen i gyflawni amserlenni arfaethedig 6

- Mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth a fframwaith clir ar gyfer llunio cynigion i newid gwasanaethau 6
- Mae prosesau gwneud penderfyniadau yn glir ac yn cael eu deall ac mae'r Cyngor yn cymryd camau i atgyfnerthu unrhyw wendidau sydd i'w gweld o hyd 7
- Mae arfarniadau o opsiynau ar gyfer newid gwasanaethau yn glir ac yn bellgyrhaeddol, ond mae lle i wella cyflymder y broses gwneud penderfyniadau 8
- Mae trefniadau gwneud penderfyniadau yn cynnig cyfleoedd i randdeiliaid gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar newid gwasanaethau ond mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei ddull gweithredu er mwyn cynnwys pob cymuned amrywiol 9
- Mae'r Cyngor yn monitro effaith ei benderfyniadau i newid gwasanaethau ond mae'n deall y gellir atgyfnerthu trefniadau cyfredol ymhellach 10
- Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei fframwaith gwneud penderfyniadau yn flynyddol ond mae angen iddo gynnwys cynghorwyr fwy wrth fynd ati i ddatblygu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 11

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Mae llywodraethu'n ymwneud â sut mae cyrff cyhoeddus yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, ar gyfer y bobl iawn, mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliannau a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli cyrff cyhoeddus ac a ddefnyddir ganddynt i fod yn atebol i'w cymunedau, ymgysylltu â hwy a, lle y bo'n briodol, eu harwain[1].

2 Mae llywodraethu da yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon yr ymddiriedir ynddynt yn barhaus. Mae'r hinsawdd ariannol bresennol a'r setliadau is i lywodraeth leol yn ogystal â'r galw cynyddol am rai gwasanaethau yn golygu ei bod yn debygol y bydd angen i bob cyngor barhau i wneud penderfyniadau ynghylch cyfluniad gwasanaethau a'r modd y cânt eu darparu yn y dyfodol. Mae llywodraethu da yn hanfodol wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau. Yn aml mae'r fath benderfyniadau yn rhai dadleuol ac yn ennyn cryn dipyn o ddiddordeb lleol a gallant gael effeithiau sylweddol ar yr unigolion a'r grwpiau y maent yn effeithio arnynt.

3 Ers mis Ebrill 2016, bu'n ofynnol i gynghorau gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Chanllawiau Statudol cysylltiedig. Mae'r Canllawiau Statudol yn nodi'r canlynol: 'Gyda'i gilydd, bwriedir i'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'[2]. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd llywodraethu effeithiol i gyflawni nodau llesiant.

4 Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu Cyngor Sir Ceredigion (y Cyngor) ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau. Rydym yn diffinio newid i wasanaethau fel unrhyw newid sylweddol i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a/neu unrhyw newid sylweddol o ran profiadau defnyddwyr gwasanaethau allanol o wasanaethau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, newidiadau i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu, lefel y gwasanaeth a ddarperir, argaeledd y gwasanaeth neu gost y gwasanaeth.

5 Gan gymryd fframwaith diwygiedig Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer 'Delivering good governance in local government' fel safon briodol, mae'r adolygiad hwn yn darparu llinell sylfaen i'r Cyngor gynllunio rhagor o welliannau. Yn yr asesiad hwn, a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2016, er mwyn llywio ein hasesiad o drefniadau cyffredinol y Cyngor ar gyfer datblygu newidiadau i wasanaethau a phenderfynu arnynt, ystyriwyd

[1] CIPFA/SOLACE, **Delivering Good Governance in Local Government: Framework 2007** (Cyfieithiad o ddyfyniad)

[2] Llywodraeth Cymru: **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol, Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

agweddau ar y trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â nifer o gynigion ar gyfer gwneud newidiadau sylweddol i wasanaethau. Ymhlith y newidiadau i wasanaethau a ystyriwyd roedd:

- Adolygiad o gartrefi gofal preswyl
- Adolygiad o wasanaethau hamdden
- Adolygiad o'r ddarpariaeth arlwyo mewn ysgolion
- Adolygiad o'r system cofrestr tai

6 Nid ystyriwyd pob un o'r penderfyniadau unigol ynghylch newid gwasanaethau yn fanwl, ond yn hytrach fe'u defnyddiwyd fel enghreifftiau i gyfeirio atynt a llywio'r ffordd y mae'r Cyngor yn mynd ati i wneud penderfyniadau ynghylch newidiadau i wasanaethau.

7 Yn yr adolygiad hwn, daethom i'r casgliad bod gan **y Cyngor drefniadau llywodraethu clir ar gyfer gwneud penderfyniadau ar newidiadau i wasanaethau ond, yn aml, nid yw cynigion yn cael eu datblygu ar y cyflymder sydd ei angen i gyflawni amserlenni arfaethedig.**

# Cynnig ar gyfer gwella

Arddangosyn 1: cynnig ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn pennu'r meysydd gwella a nodwyd drwy ein hadolygiad:

| Cynnig ar gyfer gwella |
| --- |
| Atgyfnerthu'r trefniadau llywodraethu drwy wneud y canlynol:<br>C1 cynnwys cynghorwyr yn llawn yn y gwaith o adolygu trefniadau llywodraethu a llunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu clir ar gyfer gwneud penderfyniadau ar newidiadau i wasanaethau ond, yn aml, nid yw cynigion yn cael eu datblygu ar y cyflymder sydd ei angen i gyflawni amserlenni arfaethedig

### Mae 'r Cyngor wedi datblygu strategaeth a fframwaith clir ar gyfer llunio cynigion i newid gwasanaethau

8 Dechreuodd y Cyngor ar raglen newid trawsnewidiol yn 2010 yn wreiddiol. Fodd bynnag, cafodd y rhaglen honno ei diwygio yn 2015 yn dilyn gwaith a wnaed mewn partneriaeth ag ymgynghorydd allanol i nodi nifer o gyfleoedd i wella gwasanaethau a chyflawni arbedion effeithlonrwydd. O ganlyniad, datblygodd y Cyngor raglen drawsnewid sy'n darparu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer llunio cynigion i newid gwasanaethau. Mae'r rhaglen drawsnewid yn cynnwys Grŵp Cynghori Trawsnewid ac Effeithiolrwydd trawsbleidiol (Panel Trawsnewid) o swyddogion a chynghorwyr sy'n gysylltiedig â'r gwaith o nodi a thrafod newidiadau arfaethedig i wasanaethau ar gam cynnar. Nid oes gan y Panel Trawsnewid bwerau i wneud penderfyniadau ond gall gyflwyno cynigion ac adolygu opsiynau cyn i'r broses o graffu arnynt a phenderfynu arnynt ddechrau. Yn ddiweddar, mae rôl y Panel Trawsnewid wedi'i hymestyn i gynnwys rôl fonitro ehangach ar gyfer prosiectau newid gwasanaethau trawsnewidiol. Cabinet y Cyngor sy'n gwneud penderfyniadau terfynol ar bob newid sylweddol i wasanaethau.

9 Mae'r rhaglen drawsnewid yn cynnwys Cynllun Strategol, sy'n nodi'r rhaglen a'r amserlen gyffredinol ar gyfer datblygu a gweithredu cynllun y Cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol yn wyneb cyfyngiadau ariannol parhaus. Mae'r rhan fwyaf o'r dogfennau sy'n ymwneud â newid gwasanaethau yn ystyried materion trawsbynciol megis goblygiadau o ran cydraddoldeb, cynaliadwyedd a'r Gymraeg, sy'n adlewyrchu awydd y Cyngor i hyrwyddo ei gymunedau, y Gymraeg a chynaliadwyedd adnoddau yn y sir.

10 Mae'r Cyngor yn nodi amcanion clir ar gyfer newidiadau i wasanaethau ac yn amlinellu'r rhesymau allweddol dros gynigion i newid gwasanaethau o gam cynnar, gan gynnwys lleihau costau sy'n deillio o doriadau cyllidebol. Mae'r Cyngor yn ystyried amcanion megis gwella ansawdd gwasanaethau i ddefnyddwyr, lleihau atebolrwydd a risgiau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau a chynaliadwyedd parhaus gwasanaethau. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- newidiadau i wasanaethau arlwyo mewn ysgolion er mwyn gwella costeffeithiolrwydd a chynnal gwerthoedd maeth bwyd, gan ddefnyddio adnoddau yn well i gynhyrchu prydau a chynnal cyflenwyr drwy ddefnyddio cynnyrch lleol;

- newidiadau i wasanaethau'r system cofrestr tai gan sicrhau mwy o hygyrchedd a system haws i ddefnyddwyr cyhoeddus, a lleihau'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen ar swyddogion i weinyddu'r system; ac
- yr adolygiad o wasanaethau hamdden yn seiliedig ar yr amcan o gynnal gwasanaethau am gost is a chynnig cyfleoedd i gymunedau barhau i ddefnyddio gwasanaethau sy'n bodoli eisoes.

11 Mae cynghorwyr a swyddogion yn amlwg yn ymwybodol o bwysigrwydd cydbwyso anghenion byrdymor a diogelu'r gallu i gyflawni amcanion tymor hwy. Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae'r Cyngor yn mynd ati i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, yn dal i gael ei datblygu. Er mwyn helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar newidiadau i wasanaethau, mae'r Cyngor wedi datblygu adnodd Asesu Effaith Integredig, sy'n cwmpasu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, Safonau'r Gymraeg a rheoli risg.
Nod y Cyngor yw datblygu'r adnodd asesu hwnnw ar y we ar ddechrau unrhyw gynnig i newid gwasanaethau a sicrhau bod swyddogion a chynghorwyr yn cymryd rhan. Bydd yr adnodd asesu yn cynnig enghreifftiau ac arweiniad er mwyn helpu i atgyfnerthu dull gweithredu'r Cyngor.

## Mae prosesau gwneud penderfyniadau yn glir ac yn cael eu deall ac mae'r Cyngor yn cymryd camau i atgyfnerthu unrhyw wendidau sydd i'w gweld o hyd

12 Mae cynghorwyr ac uwch swyddogion yn dangos dealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau unigol yn y broses o wneud penderfyniadau ar newid gwasanaethau, gan gynnwys eu rolau ar y Panel Trawnewid, pwyllgorau craffu a byrddau prosiect newid gwasanaethau. Yn gyffredinol, cedwir at y rolau a'r cyfrifoldebau a nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn ymarferol. Fodd bynnag, diweddarwyd y Cyfansoddiad ddiwethaf yn 2013 ac nid yw'n adlewyrchu'r newidiadau diweddaraf a wnaed i strwythur swyddogion y Cyngor na phrosesau gwneud penderfyniadau penodol ar gyfer newid gwasanaethau. Mae'r Cyngor hefyd yn ymwybodol o'r angen i ddiweddaru'r Cyfansoddiad yn sgil y newidiadau hyn a newidiadau eraill gan gynnwys cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

13 Mae uwch swyddogion yn ymgysylltu â'r cynghorwyr sy'n rhan o'r broses o benderfynu ar newidiadau i wasanaethau yn rheolaidd ac yn eu cynorthwyo. Mae swyddogion yn gwneud sylwadau cyfreithiol ac ariannol ar gynigion drafft ac adroddiadau ar newidiadau i wasanaethau.

## Mae arfarniadau o opsiynau ar gyfer newid gwasanaethau yn glir ac yn bellgyrhaeddol, ond mae lle i wella cyflymder y broses gwneud penderfyniadau

14 Caiff amrywiaeth o opsiynau ar gyfer newid gwasanaethau eu hystyried gan y Cyngor. Yn dibynnu ar natur y newid i'r gwasanaeth, caiff rhai opsiynau eu datblygu mewn ymgynghoriad â defnyddwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid, cymunedau, staff y Cyngor ac ymgynghorwyr allanol. Mae cynghorwyr o'r farn bod yr amrywiaeth o opsiynau a ystyrir yn addas.

15 Mae'r meini prawf a ddefnyddir i arfarnu newidiadau i wasanaethau yn gyson ar y cyfan ac yn ystyried y cydbwysedd rhwng costau a manteision i'r cyhoedd. Mae'r meini prawf yn cynnwys diffinio'r amcanion dros newid, gwybodaeth am safonau ac ansawdd gwasanaethau, risgiau posibl, agweddau ariannol a chynaliadwyedd y gwasanaeth.

16 Mae cynghorwyr y Panel Trawsnewid yn gysylltiedig â'r gwaith o arfarnu opsiynau ar gam cynnar a gallant ddatblygu ffrydiau gwaith er mwyn casglu gwybodaeth bellach cyn i'r cynnig i newid gwasanaethau neu opsiynau gael eu datblygu. Unwaith y caiff opsiynau eu datblygu, maent yn destun proses herio gychwynnol gan gynghorwyr drwy drafodaethau mewn gweithdai, paneli, byrddau a phwyllgorau craffu, ac weithiau cânt eu diwygio yn sgil hynny.

17 Cynhelir asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb er mwyn arfarnu effaith bosibl newidiadau i wasanaethau ond, er bod rhai ohonynt yn drwyadl ac yn eang eu cwmpas, mae eraill yn cynnwys gwybodaeth fwy cyfyngedig. Er bod y Cyngor yn cydnabod bod rhai gwendidau mewn trefniadau cyfredol, mae wedi datblygu'r adnodd asesu sydd â'r potensial i hysbysu cynghorwyr am effaith newidiadau i wasanaethau a gofynion Deddf Cydraddoldeb 2011 yn well. Mae'r gwaith o ddatblygu'r adnodd asesu hefyd yn cwmpasu meysydd gwneud penderfyniadau pwysig fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

18 Caiff cynghorwyr wybodaeth briodol am yr amrywiaeth o opsiynau er mwyn llywio eu penderfyniadau ar newidiadau i wasanaeth ond nid ydynt bob amser yn ystyried yr effaith tymor hwy. O ran materion mwy technegol neu gymhleth, caiff cynghorwyr eu cynorthwyo drwy weithdai a chânt arweiniad a chyngor gan swyddogion, gan gynnwys gwybodaeth ariannol.

19 Mae gan y Cyngor drefniadau addas ar gyfer craffu ar gynigion i newid gwasanaethau a'u herio a chaiff y gwaith o arfarnu opsiynau eu cynnwys ar gam cynnar yn y broses. Pan fydd y Grŵp Arwain a'r Panel Trawsnewid yn nodi newidiadau posibl i wasanaethau, caiff unrhyw gynigion eu trafod yn anffurfiol ymlaen llaw gan gynghorwyr i'w hystyried gan bwyllgorau craffu gan sicrhau bod gan y trafodaethau dilynol ffocws mwy pendant. Ceir enghreifftiau o herio cadarn gyda rhai cynigion yn cael eu diwygio ar ôl iddynt gael eu hystyried drwy broses graffu'r Cyngor. Caiff gwybodaeth ei darparu mewn modd amserol ar y cyfan. Fodd bynnag, gall y broses o benderfynu ar rai newidiadau i wasanaethau fod yn hirfaith.

Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn gweithredu'n ddigon cyflym i gyflwyno'r newidiadau sydd eu hangen a'r arbedion dilynol o fewn yr amserlen angenrheidiol.

20 O ran y mwyafrif o'r newidiadau i wasanaethau a ystyriwyd gennym, mae'r wybodaeth a roddir i bwyllgorau craffu yn ddigon manwl ac mae swyddogion yn cysylltu'n rheolaidd â chynghorwyr drwy gydol y broses.

21 Caiff penderfyniadau ynglŷn â chynigion i newid gwasanaethau eu cofnodi yng nghofnodion cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a'r pwyllgorau craffu, sydd ar gael ar wefan y Cyngor.

## Mae trefniadau gwneud penderfyniadau yn cynnig cyfleoedd i randdeiliaid gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar newid gwasanaethau ond mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei ddull gweithredu er mwyn cynnwys pob cymuned amrywiol

22 Mae gan y Cyngor drefniadau i gynnwys rhanddeiliaid yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch cynigion i newid gwasanaethau a'u goblygiadau posibl a'u hysbysu am y cyfryw benderfyniadau a goblygiadau. Nod Polisi Ymgysylltu Cymunedol y Cyngor yw rhoi cyfle i bob rhanddeiliad allweddol yng Ngheredigion ddylanwadu ar y modd y caiff polisïau eu datblygu a'r modd y caiff gwasanaethau yn y Sir eu cynllunio a'u cyflwyno. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn darparu adnodd gwneud penderfyniadau ynghylch ymgynghori yn seiliedig ar Egwyddorion Gunning[3], sy'n helpu cynghorwyr a swyddogion i benderfynu pryd y mae'n briodol i gynnal ymgynghoriad.

23 Bydd gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid ar newidiadau i wasanaethau yn amrywio yn dibynnu ar natur defnyddwyr gwasanaethau a'r sawl sy'n darparu neu'n cefnogi'r gwasanaeth, ynghyd â'r effaith bosibl arnynt. Yn gyffredinol, mae gweithgarwch ymgysylltu'r Cyngor yn cwmpasu amrywiaeth o grwpiau gwahanol gan gynnwys preswylwyr lleol, busnesau, cyflogeion, defnyddwyr gwasanaethau, cyflenwyr a chyrff sector cyhoeddus fel y Bwrdd Iechyd. Yn ystod yr adolygiadau o gartrefi gofal, gwasanaethau hamdden a'r system cofrestr tai, aeth y Cyngor ati i weithio gyda rhanddeiliaid er mwyn helpu i nodi a datblygu atebion, gan gynnwys ymgysylltu â sefydliadau sector preifat, sefydliadau tai a grwpiau cymunedol ar nifer o'r newidiadau a adolygwyd gennym. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig cyfleoedd i'r cyhoeddi godi cwestiynau penodol am newidiadau i wasanaethau a chael atebion i'r cwestiynau hynny drwy ei brotocol ymgysylltu â'r cyhoedd ar gyfer cyfarfodydd craffu.

[3] Egwyddorion Gunning - cyfres sefydledig o reolau a ddatblygwyd gan y Llysoedd ar gyfer ymgynghoriadau cyhoeddus i bennu p'un a yw'r ymarfer yn gyfreithlon.

24 Fel arfer, mae'r Cyngor yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ôl nodi newidiadau posibl i wasanaethau ac mae'n ystyried ei ddyletswydd cydraddoldeb mewn perthynas ag ymgysylltu. Fodd bynnag, nid yw'n hollol amlwg sut mae'r gweithgarwch ymgysylltu hwn yn cwmpasu pob grŵp amrywiol y gallai'r newidiadau effeithio arno. Ceir enghreifftiau lle mae'r Cyngor yn cynnwys rhai grwpiau yn effeithiol mewn cynigion i newid gwasanaethau, fel cynigion i newid cynllun yr orsaf fysiau yn Aberystwyth a menter Cymhennu Ceredigion, lle mae gweithgarwch ymgysylltu â grwpiau anabl, ac adborth ganddynt, wedi arwain yn uniongyrchol at ddiwygio newidiadau i wasanaethau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ffyrdd o sicrhau bod rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn gallu ymgysylltu â'r broses o gyflwyno newidiadau i wasanaethau a rhoi adborth ar y broses honno.

25 Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2016, yn cynnwys ei drefniadau i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb. Mae'n tynnu sylw at ymgysylltu â grwpiau gwarchodedig ac asesu effaith debygol unrhyw bolisïau ac arferion y mae'r Cyngor yn eu cynnig, eu hadolygu neu eu diwygio.

26 Yn ystod yr adolygiad o gartrefi gofal, ystyriwyd barn preswylwyr, staff cartrefi gofal, teuluoedd preswylwyr a'r cyhoedd cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud. Cafodd hyn ddylanwad uniongyrchol ar yr opsiynau ar gyfer sawl safle, yn cynnwys diystyru nifer o opsiynau yn y cynllun gwreiddiol.

## Mae'r Cyngor yn monitro effaith ei benderfyniadau i newid gwasanaethau ond mae'n deall y gellir atgyfnerthu trefniadau cyfredol ymhellach

27 Mae gan y Cyngor drefniadau ar gyfer monitro'r broses gyflawni, perfformiad ac effaith ariannol newidiadau i wasanaethau. Caiff trefniadau monitro a gwerthuso eu cynnwys mewn achosion busnes ac fe'u hadroddir maes o law i'r bwrdd prosiect sy'n gyfrifol am y newid i wasanaeth, gan gynnwys y Grŵp Arwain a'r Cabinet.

28 Ar gyfer pob newid i wasanaeth, penodir Uwch Swyddog Cyfrifol i fonitro effaith neu fanteision penderfyniadau. Yn dibynnu ar natur y newid i wasanaeth, caiff yr Uwch Swyddog hwnnw, sy'n adrodd ar gynnydd i'r Panel Trawsnewid a'r Cabinet, ei gefnogi gan swyddogion ariannol, cyfreithiol ac adnoddau dynol. Mae'r cynlluniau busnes ar gyfer newidiadau i wasanaethau yn egluro'r trefniadau ar gyfer monitro penderfyniadau a sut mae'r Cyngor yn disgwyl monitro llwyddiant sy'n briodol ac yn gymesur â'r newid i'r gwasanaeth unigol. Caiff cynnydd ei ddiweddaru yn y Cynllun Strategol. Mae'r Cyngor yn cydnabod, er ei fod yn neilltuo llawer o amser i baratoi cynigion a rhoi newidiadau i wasanaethau ar waith, ei fod yn treulio llai o amser yn gwerthuso eu heffaith. Er bod y Cyngor yn bwriadu i bob un o'i adrannau adolygu a gwerthuso canlyniadau newidiadau, nid yw hynny'n digwydd bob amser, gyda rhai swyddogion yn nodi nad oes digon o amser ar gael iddynt adolygu a myfyrio'n drwyadl.

## Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei fframwaith gwneud penderfyniadau yn flynyddol ond mae angen iddo gynnwys cynghorwyr yn fwy wrth fynd ati i ddatblygu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol

29 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn nodi'n glir sut mae'r Cyngor yn gweithredu a'r broses o lunio polisïau a gwneud penderfyniadau. Cafodd y Cyfansoddiad ei ddiweddaru yn 2013 er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd yn sgil Etholiadau Llywodraeth Leol 2013, gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a'r newidiadau ar ôl ailstrwythuro uwch reolwyr ar ddechrau 2013. Mae adolygiad pellach yn mynd rhagddo ar hyn o bryd er mwyn adlewyrchu newidiadau mwy diweddar a ddisgrifir yn yr adrannau blaenorol.

30 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cynnwys crynodeb o'r camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i wella meysydd blaenoriaeth uchel ar gyfer gwella trefniadau llywodraethu. Fodd bynnag, nodwyd bod diffyg ymwneud gan aelodau wrth fynd ati i adolygu a diwygio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol diweddaraf. Ystyrir bod y rhan a chwaraeir gan gynghorwyr mewn adolygiadau o drefniadau llywodraethu a monitro cynnydd yn agwedd bwysig ar lywodraethu corfforaethol da sy'n cyfrannu at y sicrwydd rheolaeth fewnol a roddir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor.

31 Ymhlith y newidiadau mwy diweddar i drefniadau llywodraethu mae'r newid i'r rhaglen drawsnewid a'r Panel Trawsnewid, sy'n trafod newidiadau posibl i wasanaethau ar gam cynnar. Mae'r penderfyniad i drafod cynigion i newid gwasanaethau cyn iddynt gael eu craffu gan y Cabinet, Cyngor a Phwyllgorau Craffu yn helpu i liniaru a datrys problemau yn gynharach yn y broses gwneud penderfyniadau. Er bod y Cyngor yn ymwybodol o rai gwendidau posibl, fel penderfyniadau yn cymryd mwy o amser yn gynharach yn y broses lywodraethu, mae angen iddo fod yn fwy realistig ynglŷn â'r amserlenni cyflawni ar gyfer prosiectau neu gyflymu'r broses o wneud penderfyniadau.

32 Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau i newid gwasanaethau a chânt eu cynnwys yn ei Gofrestr Risg Gorfforaethol, lle y bo'n briodol. Gall y risgiau hyn gynnwys problemau posibl wrth newid gwasanaethau a all effeithio ar wasanaethau statudol a dewisol. Mae'r adolygiadau o gartrefi gofal a gwasanaethau hamdden yn enghreifftiau lle y caiff newidiadau i wasanaethau eu hystyried ochr yn ochr â'r risgiau o ran materion diogelu, a chaiff y rhain eu dwyn i sylw pwyllgorau craffu a chynghorwyr.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru